



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Sustem ymeithrio feddal o roi organau: ymchwil i farn Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil Cymdeithasol

Rhif: 46/2013

Comisiynwyd Beaufort Research i gynnal ymchwil er mwyn tafoli barn Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol ym maes rhoi organau, parthed yr argymhellion arfaethedig ar gyfer symud i sustem o ymeithrio meddal yng Nghymru.

Nod yr ymchwil oedd archwilio'r canfyddiadau o drefnau gwaith cyfredol ac i sefydlu pa ddisgwyliadau ac agweddau a oedd gan Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol ac unrhyw bryderon a oedd ganddynt ynghylch gweithredu, a symud at drefn o ymeithrio meddal. Mae'r adroddiad yn cyflwyno safbwyntiau personol a fynegwyd gan Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol a gyfwelwyd.

Roedd yr ymchwil yn y lle cyntaf yn cynnwys bwrdd bwletin ar-lein y gwahoddiwyd Nyrsys Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau (Specialist Nurses for Organ Donation - SNODs) ac Arweinwyr Clinigol ar Roi Organau (Clinical Leads for Organ Donation - CLODs) iddo, ac yna 25 o gyfweiliadau mewn dyfnder gyda SNODs a CLODs yng ngogledd a de Cymru. Cynhaliwyd y gwaith maes yn ystod Chwefror a Mawrth 2013.

Canfyddiadau: Elfennau cadarnhaol o weithdrefnau gwaith cyfredol

Ar draws y sampl, tynnodd y cyfranwyr sylw yn gyson at bwysigrwydd cael SNODiau wedi eu lleoli yn y fan a'r lle fel elfen hanfodol yng ngwella'r gweithdrefnau cyfredol.

Roeddent wedi dod yn ganolog i'r broses o roi organau, ac roedd canfyddiad eu bod yn cael effaith gadarnhaol gyda chlustnodi achosion posib lle gellid rhoi organau lle'r oedd marwolaeth y claf yn anochel, ac ar y lefelau o roi caniatâd ymhlith teuluoedd cleifion a oedd wedi marw.

Yn ogystal credid bod y ffordd yr oedd y SNODiau a'r CLODiau yn meithrin perthynas dros amser gyda'r staff eraill ac yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn elfen hanfodol o drefnau gweithio cyfredol hefyd. Roedd teimlad hefyd bod effaith y SNOD wedi eu lleoli yn y fan a'r lle yn cynyddu pan oedd y SNOD wedi gweithio yn yr Uned Gofal Dwys yr oeddent wedi ei leoli ynddo cyn iddynt ysgwyddo swyddogaeth Nyrsio Arbenigol.

Trwy ymdrechion ar y cyd y SNODiau a'r CLODiau, teimlid bod staff clinigol yn fwy tebygol bellach o feddwl ynghylch rhoi organau, yn arbennig felly pan oedd sgysrsiau ynghylch rhoi organau yn cael eu cynnal gydag unedau eraill megis yr uned argyfwng (ED). Credid bod ymwneud y CLOD o gymorth gyda dylanwadu ar gymheiriaid yn hyn o beth.

Dedansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ar y cyfan, credid bod y canllawiau amrywiol a oedd wedi eu cynhyrchu ynghylch sut i droi at deuluoedd rhoddwyr organau posib yn effeithiol o ran darparu, ar lefel uchel, eglurder a chysondeb parthed yr arferion gorau.

Gan gyfeirio'n benodol at y dynesiad o ddewis bod i mewn ar gyfer rhoi organau, esboniodd rhai cyfranwyr bod y system yn offeryn 'grymus' wrth droi at deuluoedd lle'r oedd y rhoddwr posib ar y gofrestr: roedd dymuniadau'r claf yn amlwg a doedd dim pwysau ar y teulu i wneud penderfyniad a allai fod yn un anodd.

Roedd agweddau cadarnhaol eraill i'r gweithdrefnau cyfredol yn cynnwys:

- Nifer y rhoddwyr posib a gollwyd yn gostwng;
- Cynnwys y SNODiau yn gynharach lle'r oedd rhoi'r organau yn bosibilrwydd; a
- Chael trefniadau tebyg ynteu yr un peth naill ochr a'r llall o'r ffin.

Elfennau llai cadarnhaol o weithdrefnau gwaith cyfredol

Yn ôl y cyfranwyr led-led gogledd a de Cymru gallai clinigwyr weithiau effeithio'n negyddol ar y broses o roi

organau am nifer o resymau. Roedd rhain yn cynnwys: clinigwyr yn anodd i'w dylanwadu arnynt yn nhermau'r arferion gorau, ynteu'n anodd eu herio ar benderfyniad i beidio â dynodi claf fel rhoddwr organ posib lle'r oedd marwolaeth y claf yn anochel, ynteu aros tan yr oedd triniaeth wedi dod i ben; clinigwyr yn troi at deuluoedd i drafod rhoi organau pan oedd SNOD ar gael; defnyddio geiriau anaddas ynteu droi at y teulu ar amser anaddas; anghysondeb ymhlith clinigwyr ynghylch yr hyn a oedd yn cynrychioli rhoddwr organau posib; dynodi rhoddwyr posib yn hwyr iawn; anhawster moesol ar ran y clinigwr wrth gyfeirio claf i'r uned gofal dwys yn gyfan gwbl â'r nod o ddarparu organ, pan y gellid defnyddio'r gwely yno i drin claf a allai oroesi.

Cyfeiriodd cyfranwyr yng ngogledd a de Cymru at broblemau gyda darpariaeth SNOD. Roedd y sefyllfaoedd hyn yn rhannol o ganlyniad i ystyriaethau daearyddol ond hefyd yn gysylltiedig ag adnoddau (er enghraifft staff yn gadael, secondiadau ynteu salwch). Roedd dynodi rhoddwyr organau posib a oedd yn tynnu at ddiwedd eu hoes yn brydlon a sgysiau dros y ffôn yn medru goresgyn rhwystrau

daearyddol, er gallai hyn syrthio'n brin o'r hyn a oedd yn cael ei gydnabod fel yr arfer gorau.

Codwyd mater cynhwysedd gofal dwys gan rhai o'r cyfranwyr yn ngogledd a de Cymru, er enghraifft bod cleifion a oedd yn bwriadu rhoi organau yn llenwi gwelyau'r uned gofal dwys am amser hirach; ynteu golli'r cyfle i roi gan nad oedd gwely uned gofal dwys ar gael ar gyfer claf yn yr uned argyfwng.

Cafwyd cyfeiriadau at geisio goresgyn y sefyllfa hon trwy ddefnyddio Unedau Adfer gyda staff Uned Gofal Dwys.

Roedd elfennau llai cadarnhaol y trefniadau gweithio yn cynnwys:

- Yr her o wireddu arferion da yn yr uned argyfwng oherwydd prinder amser i ddod i adnabod teuluoedd a'i bod yn anodd i feithrin perthynas pan nad oedd amser i'r SNOD gael ei lleoli o fewn yr uned;
- Y posibilrwydd o or-weithio ymhlith SNODiau;
- Roedd y camau yr oedd yn rhaid iddynt gael eu gweithredu cyn bod y tîm tynnu organau yn cyrraedd yn medru cymryd cryn amser;

- Yr her o gynnal sgysiau gyda theuluoedd lle nad oedd y claf wedi dewis ymuno â'r gofrestr rhoddwyr, a lle nad oedd y claf wedi trafod eu dymuniad gyda'r teulu.

Y sustem ymwrthod feddal arfaethedig ar gyfer rhoi organau yng Nghymru

Yn gyffredinol, nid oedd cyfranogwyr yn credu y byddai eu trefn arferol o weithio yn newid yn sylweddol pe buasai'r sustem newydd arfaethedig yn cael ei mabwysiadu: roeddent yn rhagweld dulliau tebyg o weithio, lefelau cyffelyb o waith papur, ac amser tebyg yn cael ei dreulio wrth drafod gyda theulu claf.

Roeddent yn disgwyl dynesiadau tebyg wrth droi at deuluoedd, gyda man newidiadau yn unig i eiriad sgysiau a fyddai'n codi'r posibilrwydd o roi organ os oedd hynny'n addas, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r sustem newydd. Cafwyd cyfeiriadau at yr angen i ddeall sut i gyflwyno unrhyw newidiadau deddfwriaethol i'r sgwrs. Y gobaith oedd y byddai canllawiau 'du a gwyn' yn cael eu darparu ar y newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i'r dynesiad newydd.

Nid oedd disgwyl y byddai cydweithio ar draws y ffin yn peri problem tra ei bod yn hawdd i gael mynediad i'r cofrestr a bod hwnnw'n eglur ynghylch manylion megis trigiannaeth, er codwyd cwestiynau ynghylch pa mor hawdd fyddai hyn ar dro. Byddai angen gofal er mwyn sicrhau bod y SNOD yn cofio defnyddio'r ffurflenni caniatâd addas ar gyfer Lloegr a Chymru.

Ar y cyfan roedd cyfranwyr yn awyddus i'r sistem ymeithrio feddal fod yn effeithiol, pe buasai'n cael ei chyflwyno, er mwyn achub rhagor o fywydau. Cafwyd cyfeiriad at y newid mewn agweddau a welwyd ers i'r sistem newydd gael ei hargymell gyntaf, ac ymdeimlad bod SNODiau a CLODiau bellach yn derbyn y sistem ymwrthod feddal.

Fodd bynnag, roedd yna ansicrwydd ac amheuaeth weithiau ynghylch pa un ai y gwelid cynydd (yn syth) yn niferoedd y rhoddwyr o ganlyniad i'r newid; a barn y buasai o bosib yn well pe buasai'r arian a fyddai'n cael ei fuddsoddi yn y sistem newydd yn cael ei wario yn hytrach ar hyrwyddo rhoi organau dan y sistem bresennol.

Consýrn parthed y newid arfaethedig i sistem o ymeithrio meddal

Y consýrn allweddol (posib) a fynegwyd gan y cyfranogwyr oedd yr angen i osgoi sefyllfa lle'r oedd y cyhoedd yn penderfynu ar sail diffyg gwybodaeth i ymeithrio o'r sistem. Codwyd nifer o ofidiau eraill, ond nid oedd unrhyw un thema arall yn ei amlygu ei hun:

- Yng ngoleuni sefyllfa lle na fyddent yn troi at deuluoedd lle'r oedd y claf wedi ymeithrio, mynegwyd amheuaeth o dro i dro ynghylch pa mor sicr y gallai staff fod i'r penderfyniad fod yn un cyfredol ac yn un gwybodus;
- Gallai baich gwaith y SNODiau a'r CLODiau gynyddu oherwydd y cyfrifoldeb i addysgu cynulleidfaoedd newydd megis y proffesiwn meddygol ehangach (er roedd y rheini a gyfrannodd yn cydnabod pwysigrwydd y cyfrifoldeb hwn);
- Cadw ymrwymiad â rhoi organau ymhlith cydweithwyr hŷn oherwydd ystyriaethau yn gysylltiedig â chydsyniad a marwolaeth y sistem gylchredol;
- Pwysau ar y ddarpariaeth ofal ddwys yn debyg o barhau;

- Anhawster gydag adnabod rhai cleifion ac o'r herwydd sicrhau eu bod yn trigo yng Nghymru.

Llwyddo gyda'r sistem newydd yng Nghymru

Roedd unfrydedd barn ymhlith yr holl gyfranwyr mai addysg ymhlith ystod eang o gynulleidfaoedd oedd y peth hanfodol i lwyddiant y cynllun o fabwysiadu sistem ymeithrio meddal. Roedd y cynulleidfaoedd hyn yn cynnwys: y cyhoedd yn arbennig; staff ysbytai ac, i raddau amrywiol, staff eraill y Gwasanaeth Iechyd.

Teimlid, yn ddelfrydol mai'r SNODiau a'r CLODiau oedd, ar y cyfan, yn fwyaf cymwys i ddarparu'r addysg hwn, ond y byddai'n rhaid cynyddu'r adnoddau er mwyn gwneud hynny.

Roedd yna gred y byddai'n rhaid i'r cyhoedd dderbyn sicrwydd y byddai ymwneud y teulu yn parhau i fod yn ganolog i'r broses o roi organau a oedd ynddo'i hun yn seiliedig ar ddewis, ac nad sistem ymeithrio 'galed' oedd yn cael ei hargymell.

Dynodwyd y byddai'r sistem addysg a meddygon teulu â swyddogaeth bwysig wrth hysbysu'r cyhoedd

yngghylch y sistem newydd arfaethedig, yn ogystal ag yngghylch rhoi organau yn fwy cyffredinol. Byddai'r Prifysgolion (a meddygon teulu) mewn lle delfrydol i hysbysu myfyrwyr o'r tu allan i Gymru yngghylch y sistem newydd yng Nghymru.

Yn ôl y cyfranwyr, roedd llwyddiant y sistem newydd yn dibynnu ar gael un cofrestr ddi-amwys a chyfredol a fyddai'n cyfuno dewisiadau cleifion y DU. Byddai angen i SNODiau a CLODiau fod yn hyderus y byddent wedi eu hamddiffyn yn gyfreithiol pe buasent yn gweithredu ar wybodaeth anghywir yn y gofrestr, ond gwneud hynny gyda phob ewyllys da. Daeth yn amlwg yng ngogledd a de Cymru bod cyfyngiadau yn nealltwriaeth y cyfranwyr o gynnwys y Bil parthed dull y cynllun newydd o fynd i'r afael â thrigiannaeth a sut y byddai'r cofrestr yn gweithio.

Anghenion hyfforddi pellach

Credid mai cymharol fach fyddai'r anghenion ar gyfer hyfforddiant pellach ymhlith y SNODiau a'r CLODiau. Credai rhai cyfranwyr ei bod hi'n hanfodol bod y CLODiau a chlinigwyr eraill â'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn medru ateb

cwestiynau cydweithwyr a theuluoedd, ac er mwyn medru defnyddio'r iaith fwyaf addas pe buasai'n rhaid iddynt droi at deulu ynghylch rhoi organ.

Awgrymid y byddai newid deddfwriaethol yn medru bod yn sbardun ar gyfer ymwneud yn fwy effeithiol â rhai clinigwyr ynghylch rhoi organau.

Byddai grwpiau eraill o blith y staff yn cael budd hefyd o godi eu hymwybyddiaeth ynteu dderbyn hyfforddiant pellach yn ôl y cyfranwyr: byddai'n ddefnyddiol i'r holl rai hynny a oedd yn ymwneud â gofal cleifion wybod ynghylch yr amgylchiadau penodol rheini pan y gallai rhoi organau ynteu feinwe ddigwydd gan ei bod hi'n bosib y buasai teuluoedd cleifion yn holi am hynny. Yn ddelfrydol, byddai'r holl aelodau rheini o staff a fyddai'n ymwneud â'r pwnc yn rhinwedd eu gwaith yn dod yn gyfarwydd â'r broses.

Casgliadau ac ystyriaethau

Canolbwyntiwyd yn bennaf yn ystod y prosiect ymchwil ansoddol hwn ar archwilio'r canfyddiadau o weithdrefnau cyfredol ac i ddynodi'r

disgwyliadau, agweddau ac unrhyw ofidiau a oedd gan Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol ynghylch, a'r broses o symud at, sistem o ymeithrio meddal.

Dylid nodi o'r herwydd, nad oedd rhai o'r ystyriaethau a amlygwyd yn yr ymchwil yn benodol berthnasol i gymariaethau'r cyfranwyr o'r trefniadau gwaith presennol a sut y byddai rheini yn newid o bosib pe buasid yn symud i sistem o ymeithrio meddal. Cynhwysir yr ystyriaethau hyn o fewn y casgliadau yma fel meysydd ar gyfer eu harchwilio ymhellach.

O ganolbwyntio'n benodol ar y sistem bresennol o ddewis rhoi organau a threfn waith y rheini a oedd yn cymryd rhan, y darlun yn gyffredinol oedd un o gynnydd yn ystod y blynyddoedd diweddaraf o ganlyniad i weithredu argymhellion y Tasglu ar Roi Organau, SNODiau wedi eu lleoli gyda CLODiau cefnogol, yn ogystal â chanllawiau effeithiol hyblyg. Yn ogystal, roedd hyn fel arfer yn gwneud y dasg o siarad gyda theuluoedd yn haws lle'r oedd y claf wedi ei gwneud yn amlwg ei fod am fod yn roddwr organau, er enghraifft trwy ymuno â chofrestr rhoddwyr organau.

Credid yn glir bod yr arfer o leoli SNODiau yn cael cryn effaith ar roi organau, a pho hiraf yr oedd unigolyn yn cael ei lleoli mewn un man, yna gorau'n y byd yr oedd y berthynas gyda staff a allai ddylanwadu ar ganlyniadau rhoi organau. Awgryma'r ymchwil hwn (ond nid yw'n cadarnhau'n ddi-amod) y gallasai fod yn werth chweil archwilio ymhellach yr ardaloedd allweddol sy'n peri pwysau o fewn gwaith y SNODiau gyda'r nod o leddfu'r pwysau hwnnw.

O safbwynt y drefn waith bresennol, nid oedd y materion a godwyd gan gyfranwyr, ar y cyfan, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r sistem bresennol yng Nghymru o ddewis rhoi organau ond yn hytrach yn gysylltiedig â rhoi organau yn gyffredinol a chyfyngiadau gweithredol. Roedd rhain yn cynnwys sawl her ddaearyddol ynteu'n gysylltiedig ag adnoddau; pwysau ar y ddarpariaeth o ofal dwys, yn ôl rhai; a thrafferthion y cyfeiriwyd atynt gyda rhai clinigwyr, er enghraifft diffyg hygrededd SNODiau o safbwynt clinigwyr; methu â chynnwys SNODiau yn gynharach yn y broses lle'r oedd rhoi organau yn bosibilrwydd; defnyddio

ymadroddion anaddas wrth siarad â theuluoedd rhoddwyr posib; a'r clinigwr yn dewis cael y sgwrs gyntaf ynghylch rhoi yn hytrach na gadael i'r SNOD gyflawni'r dasg hon.

Dengys yr ymchwil felly y gallasai'r rhain fod yn feysydd ar gyfer ymchwil ac archwilio pellach dros amser. Un dynesiad posib fyddai darparu hyfforddiant i glinigwyr ar y sistem o ymeithrio meddal a throi at deuluoedd fel hyfforddiant angenrheidiol yn hytrach na dewisol, oherwydd y newidiadau deddfwriaethol. Yn ogystal, mae'r trafferthion a ganfyddir ymhlith rhai cyfranwyr o ddiffyg lle yn y ddarpariaeth gofal dwys yn awgrymu y dylid monitro llwyddiant unrhyw ymdrechion i fynd i'r afael â'r mater hwn, er enghraifft trwy ddefnyddio Unedau Adfer o'r Theatr.

Gan droi at yr argymhellion arfaethedig i fabwysiadu sistem o ymeithrio ar gyfer rhoi organau yng Nghymru, roedd lefel uwch o gefnogaeth ymhlith cyfranwyr i'r argymhellion, yn wahanol i'r sefyllfa o bosib pan amlinellwyd yr argymhellion yn gyntaf oll. Roedd teimlad y buasai'r Bil yn cael ei basio ac y buasant yn gwneud pa beth bynnag a fedrent i gynyddu'r

cyfraddau o gydsynio i roi organau a sicrhau llwyddiant y system newydd, er mwyn achub bywydau.

Nid oedd cyfranwyr yn disgwyl ar y cyfan i'w trefn waith gyfredol newid yn sylweddol er roeddent yn disgwyl gweld man newidiadau yn yr iaith i'w ddefnyddio wrth droi at deuluoedd am y tro cyntaf. Roedd rhai o'r sylwadau a wnaed gan gyfranwyr ynghylch rhai o agweddau'r Bil, megis y gofynion trigiannaeth a sut y buasai'r cofrestr yn gweithio, yn awgrymu bod angen gwaith pellach ar addysgu ynghylch manylion o'r math sydd eisoes ar gael yn y Bil a'i Femorandwm Esboniadol.

Ym marn cyfranwyr, yr elfen allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant y system oedd addysgu'r cyhoedd yn ei grynsyth, ond roedd gofid hefyd ynghylch y posibilrwydd y byddai rhoddwyr posib yn cael eu colli o ganlyniad i'r diffyg crebwyll ddisgwyliedig ymhlith y cyhoedd ynghylch y system newydd arfaethedig. Roedd cyfranwyr yn disgwyl i unrhyw gyfathrebu ddelio â PR negyddol yn y cyfryngau ac yn arbennig i bwysleisio bod gan unigolyn dri dewis: i benderfynu o blaid rhoi organau; i ymeithrio rhag rhoi organau; ynteu i ddewis peidio

ag ymeithrio o roi organau a thrwy hynny roi caniatâd tybiedig i'w organau gael eu defnyddio – roedd y gallu i benderfynu o hyd i roi organau fel petasai wedi derbyn dim sylw yn y cyfryngau a datganiadau.

Roedd rhai cyfranwyr yn croesawu'r ffordd yr oedd SNODiau a CLODiau yn rhan o'r gweithgorau yng nghyswllt rhoi organau a'r newid arfaethedig tuag at system ymeithrio feddal ac yn credu bod Llywodraeth Cymru eisieu gwneud gwahaniaeth go iawn. Fel yr awgrymid ar dro yn ystod yr ymchwil, gellid cynyddu dealltwriaeth staff Llywodraeth Cymru o waith SNODiau trwy iddynt dreulio amser gyda'r SNODiau ar yr unedau.

O ystyried natur yr ystyriaethau cyfredol fel y cawsant eu disgrifio gan y cyfranwyr, dengys yr ymchwil hwn y byddai'n werth chweil monitro'r meysydd canlynol wrth i'r newidiadau cyfreithiol arfaethedig yn 2015 ddynesu ac yn ogystal os / pan fydd yn cael ei weithredu (er enghraifft 12 mis wedi dod yn weithredol):

- I ba raddau yr oedd SNODiau a CLODiau wedi dod yn fwy cyfarwydd gyda'r ffyrdd y mae'r system newydd arfaethedig yn

effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd (er enghraifft, sut mae'r cofrestr yn gweithio, trigiannaeth, sut i gychwyn sgyrsiau gyda theuluoedd ac esbonio'r sistem newydd;

- Pa mor effeithiol fu'r hyfforddiant/canllawiau a gafwyd ynghylch y sistem newydd arfaethedig, yn cynnwys meysydd y dylid eu gwella;
- Sut yr oedd perthynas gyda chlinigwyr wedi datblygu, yn cynnwys gallu SNODiau i ddylanwadu arnynt, a'r lefelau ymwybyddiaeth a ganfyddwyd, dealltwriaeth o'r sistem newydd arfaethedig a'r graddau yr oedd wedi ei derbyn;
- Sut yr oedd ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o'r sistem newydd arfaethedig yn newid ymhlith staff eraill mewn ysbytai yr oedd SNODiau a CLODiau yn cael cyswllt â nhw; ac ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol;
- I ba raddau y darperid adnoddau ychwanegol yng nghyswllt unrhyw gyfrifoldebau addysgiadol ychwanegol ar ran SNODiau / CLODiau;
- Sut yr oedd eu profiad gyda theuluoedd yn newid dros amser;

- A amlygwyd unrhyw ystyriaethau newydd yng nghyswllt y sistem newydd arfaethedig.

Beaufort Research

ISBN: 978-0-7504-9437-3